NASUWT Undeb yr Athrawon CYMRU The Teachers' Union

# Briff

## Yn dilyn ymgyrchu gan NASUWT, mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn rhoi diwedd ar wahaniaethu yn erbyn partneriaid sy'n lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol

Mae NASUWT yn falch o'i hanes o ymgyrchu dros hawliau pensiwn cyfartal i athrawon lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol a rhyngrywiol (LHDTRh). Elfen bwysig o hyn yw ymgyrchu i sicrhau bod partneriaid, sy'n oedolion, i athrawon LHDTRh yn derbyn yr un hawl i bensiynau os bydd eu partner yn marw ag y byddai partneriaid athrawon heterorywiol.

Cyn y flwyddyn 2005, nid oedd cydnabyddiaeth gyfreithiol i bartneriaethau lesbiaidd a hoyw ac nid oedd unrhyw fuddion pensiwn i oedolion oedd yn goroesi mewn partneriaethau lesbiaidd a hoyw. Yn wahanol i athrawon priod heterorywiol, ni allai athrawon LHD basio eu buddion pensiwn i'r partneriaid oedd yn eu goroesi. Mae NASUWT wedi ymgyrchu i ddod â'r anghyfiawnder hwn i ben.

Daeth y Ddeddf Partneriaeth Sifil i rym ym mis Rhagfyr 2005 a chanlyniad hon oedd bod partneriaid athrawon LHD oedd yn goroesi mewn partneriaethau sifil yn derbyn pensiynau oedolion sy'n goroesi am y tro cyntaf. Dim ond partneriaid priod athrawon heterorywiol oedd yn derbyn y pensiynau yma gynt. Yn 2013, pan ddaeth Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 i rym, estynnwyd yr hawl hwn i gynnwys athrawon oedd yn briod â rhywun o'r un rhyw.

Fodd bynnag, er bod hwn yn gam mawr ymlaen, roedd y buddion o dan y Cynllun Pensiwn Athrawon i bartneriaid sifil a chyplau priod o'r un rhyw yn anghyfartal o'u cymharu â'r buddion i weddwon partneriaid priod heterorywiol. Roedd pensiynau i weddwon priodasau heterorywiol wedi'u seilio ar gyfnodau o wasanaeth pensiynadwy yn ymestyn yn ôl i 1972 ac roedd pensiynau i bartneriaid sifil a chyplau priod o'r un rhyw wedi'u seilio ar gyfnodau o wasanaeth pensiynadwy yn mynd yn ôl i 1988 yn unig.

Mae NASUWT wedi ymgyrchu yn erbyn y gwahaniaethu yma, trwy weithgareddau megis:

- lobïo Aelodau Seneddol a gweinidogion y Llywodraeth;
- ymgysylltu â Chyngres yr Undebau Llafur a sicrhau bod y Gyngres yn mabwysiadu amcanion ymgyrchu a lobïo NASUWT.

Yn y pen draw, llwyddodd NASUWT i sicrhau cydraddoldeb i athrawon LHD a'u partneriaid.

Ym mis Ebrill 2018, yn dilyn blynyddoedd o anghyfiawnder, cyhoeddodd Adran Addysg Llywodraeth y DU y byddai pensiynau athrawon i oedolion sy'n goroesi ar gyfer pob gŵr/gwraig a phartner sifil o'r un rhyw wedi'u seilio ar yr un pensiwn cronnus â phensiynau oedolion sy'n goroesi i weddwon priodasau heterorywiol, yn mynd yn ôl i 1972.

Mae NASUWT wedi arwain yr holl undebau eraill i ymgyrchu dros hawliau pensiwn cyfartal, ac mae wedi chwarae rhan hanfodol ym mholisïau a chamau gweithredu Cyngres yr Undebau Llafur ar y mater yma.

Os bydd unrhyw aelodau o NASUWT, neu bartneriaid sy'n goroesi sy'n aelodau o NASUWT, yn derbyn pensiynau athrawon i oedolion sy'n goroesi i bartneriaid sifil neu bartneriaid priod o'r un rhyw, sydd wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd i fuddion ar sail cyfnodau o wasanaeth pensiynadwy ers 1988, dylent gysylltu'n uniongyrchol â Phensiynau Athrawon / Teachers' Pensions er mwyn sicrhau y telir unrhyw fuddion cronnus ychwanegol.

Gallwch gysylltu â Teachers' Pensions drwy'r porth ar-lein 'My Pension Online' ar www.teacherspensions.co.uk.

Os bydd aelodau NASUWT yn fuddiolwyr pensiynau oedolion sy'n goroesi, neu'n bartneriaid iddynt sydd wedi'u goroesi, ac yn cael unrhyw drafferth cysylltu â Teachers' Pensions, dylent gysylltu â NASUWT ar advice@mail.nasuwt.org.uk i ofyn am gymorth.

NASUWT Undeb yr Athrawon CYMRU The Teachers' Union

siaradwch â ni

Ffôn: 029 2054 6080
rc-wales-cyrmu@mail.nasuwt.org.uk
www.nasuwt.org.uk



19/01055